# Mileniwm Nawr

## Cwestiynau cyffredin

### Beth yw nod Mileniwm Nawr?

Mae Mileniwm Nawr yn anelu at gefnogi prosiectau creadigol ac ysbrydoliaethus sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r cyhoedd orau ar gyfer y deng mlynedd (2010-2020) ac sy'n seiliedig ar themâu y mae'r cyhoedd yn eu cefnogi.

### Faint o ariannu sydd ar gael?

Y cyfanswm ariannu ar gyfer y rhaglen hon yw £10 miliwn. Byddwn yn dyfarnu pum grant rhwng £1.5 miliwn a £2 miliwn yr un - un o dan bob un o'r pum math o brosiect Mileniwm Nawr - ar gyfer prosiectau a redir dros ddwy flynedd.

Bydd arian datblygu hefyd ar gael ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n cael eu gwahodd i gyflwyno cynllun busnes neu gynllun cyflwyno cyfalaf. Bydd hyn yn ychwanegol at eich prif grant.

### Pwy all ymgeisio?

Dim ond elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU a mudiadau elusennol yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi'u cydnabod gan Gyllid a Thollau EM fel rhai sydd wedi'u heithrio at ddibenion treth sy'n gymwys i ymgeisio i Mileniwm Nawr.

Mae'n rhaid i fudiadau cymwys ddangos hefyd eu bod wedi cyflwyno rhaglen debyg o £1 miliwn (neu fwy) o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf neu ddangos arbenigedd a phrofiad sylweddol mewn prosiectau tebyg, ynghyd â thystiolaeth amlwg o'u gallu i reoli prosiectau ar raddfa fwy.

### Pam elusennau cofrestredig yn unig?

Bydd graddfeydd amser Mileniwm Nawr yn heriol i'r holl ymgeiswyr. Yn benodol rydym yn targedu mudiadau mwy sydd â phrofiad ac arbenigedd sylweddol o gyflwyno prosiectau tebyg gan ein bod yn rhagweld y bydd angen gwneud llawer o waith i ddatblygu a lansio'r prosiectau mewn pryd. Bydd ymgeiswyr hefyd yn cael eu ffilmio, felly mae angen i ni fod yn siŵr y bydd y prosiectau'n gallu bodloni gofynion y rhaglen.

### Beth yw canlyniadau'r rhaglen?

Rydym am ariannu prosiectau a fydd yn cyflawni pob un o'r tri chanlyniad rhaglen a ganlyn yn ogystal ag ymdrin yn benodol ag un o'r mathau o brosiect Mileniwm Nawr:

- Creu cysylltiadau cryfach rhwng pobl a chymunedau.
- Datblygu prosiectau creadigol sy'n berthnasol ar draws y DU.
- Mae cymunedau'n ymwneud â dylunio a chyflwyno prosiectau.

**Beth yw'r mathau o brosiectau Mileniwm Nawr?**

Mae'n rhaid i geisiadau i Mileniwm Nawr weddu'n benodol i un o'r mathau prosiect a ganlyn yn ogystal â phob un o ganlyniadau'r rhaglen:

1. Helpu teuluoedd difreintiedig i fod yn iach ac i fyw'n dda
2. Helpu cenedlaethau gwahanol i rannu eu sgiliau gyda'i gilydd
3. Annog cymunedau i wirfoddoli i ymdrin â materion amgylcheddol
4. Dod â chymunedau ynghyd i fynd i'r afael â phroblemau lleol
5. Helpu pobl ifanc ddifreintiedig i ddysgu sgiliau newydd seiliedig ar yrfaoedd

**A allwn ymgeisio o dan nifer o fathau prosiect?**

Dim ond un cais y gallwn ei ystyried gan bob mudiad. Mae hyn yn golygu y gallwch ymgeisio dim ond o dan un math o brosiect, felly mae'n bwysig i chi benderfynu pa un y gallwch ei gyflawni orau.

**Sut y penderfynwyd ar y mathau o brosiectau?**

Gwnaethom ystyried canlyniadau'r arolwg Ipsos MORI a gynhaliwyd gyda 2,000 o bobl ledled y wlad a chyfuno hyn gyda dros 600 o sylwadau gan y cyhoedd ym Mhrydain ar wefan Penderfyniad Mawr Channel 4 i ddiffinio themâu ac anghenion cyffredin. Defnyddiwyd hyn i ddiffinio'r pum math penodol o brosiect. Trwy'r rhaglen hon felly, byddwn yn ariannu prosiectau sy'n rhoi cyfle gwirioneddol i'r cyhoedd ddweud eu dweud ynghylch sut y dylai arian Loteri gael ei gyfeirio.

**Sut mae Mileniwm Nawr yn cysylltu â'r gyfres deledu ar Channel 4?**

Er mwyn dangos i'r cyhoedd sut mae eu penderfyniad wedi arwain at ariannu go iawn ar gyfer yr achosion y maent yn eu gwerthfawrogi fwyaf, bydd Channel 4 yn dilyn cynnydd Mileniwm Nawr, o ofyn i'r cyhoedd wneud y 'Penderfyniad Mawr' ar sut maent eisiau gweld arian Loteri'n cael ei wario. Bydd y prosesau hyn yn ffurfio meingefn i gyfres sydd i'w darlledu yn rhan olaf 2012.

**Beth a ddisgwylir gennym o ran y ffilmio?**

Bydd angen i'r pum prosiect llwyddiannus agor eu drysau i gael eu ffilmio, gan weithio ar y cyd gyda ni a Channel 4 i sicrhau bod y ffilmio'n cipio'r broses mewn ffordd ddiddorol a chynrychiadol. Byddwn yn mynnu bod ymgeiswyr yn llofnodi cytundebau cyfrinachedd mewn perthynas â'r broses hon.

**Mae gennyf gwestiynau am y gofynion - sut gallaf gael gwybod mwy?**

Os ydych yn ystyried ymgeisio i'r rhaglen, mae'n rhaid i chi ddod i ddigwyddiad briffio gan y bydd gwybodaeth gyfrinachol bellach am y rhaglen yn cael ei darparu. Bydd hyn yn gysylltiedig â ffilmio eich mudiad a'i staff, ffilmio a chynnal cyfweliadau â buddiolwyr y prosiect a'r angen am gyflawni datblygiad y cynllun busnes o flaen y camerâu teledu.

**Sut ydym ni'n dod i ddigwyddiad briffio?**

Ewch i'r dudalen **Cofrestru** ar ein gwefan (www.cronfaloterifawr.org.uk/mnawr) a chwblhewch yr holiadur cymhwysedd. Os yw eich mudiad a'ch prosiect yn gymwys, dylech gwblhau a chyflwyno holiadur cadw lle ar gyfer digwyddiad briffio erbyn **dydd Mercher 9 Tachwedd.**

Os oes amgylchiadau eithriadol sy'n eich atal rhag dod i un o'r digwyddiadau briffio hyn dylech gwblhau ffurflen cadw lle mewn digwyddiad briffio o hyd er mwyn i ni wirio eich bod yn gymwys.

**Ble a phryd caiff y digwyddiadau briffio eu cynnal?**

Bydd pedwar digwyddiad briffio:

- Llundain – Dydd Iau 17 Tachwedd
- Birmingham – Dydd Gwener 18 Tachwedd
- Glasgow – Dydd Llun 21 Tachwedd
- Belfast – Dydd Mawrth 22 Tachwedd

**Beth fyddwch chi'n talu amdano?**

Gallwn gyfrannu hyd at 100 y cant o'r ariannu tuag at eich prosiect. Gall hyn gynnwys costau refeniw a chyfalaf cymwys sy'n hanfodol ar gyfer cyflwyno'r prosiect.

**Sut ydych chi'n disgwyl y bydd y prosiectau llwyddiannus yn edrych?**

Bydd ceisiadau'n cael eu barnu ar sail pa mor dda y maent yn gweddu i'r math o brosiect a ddewiswyd ar gyfer y cais. Mae'r mathau o brosiectau wedi cael eu gadael heb fod yn rhagnodol yn fwriadol fel bod digon o gwmpas i ddangos sut mae cais eich mudiad yn cynnig ateb creadigol a llawn dychymyg - rydym am weld syniadau ffres ac ymagweddau newydd.

**A allwn gyfrannu ariannu o ffynonellau eraill?**

Mae'n iawn os yw eich mudiad am ddarparu swm bach o ariannu ychwanegol neu gefnogaeth mewn da, ond ni all fod yn fwy na 10 y cant o gyfanswm cost y prosiect. Mae yna risgiau bob amser sy'n gysylltiedig â chwalfa mewn trefniadau arian cyfatebol a fydd yn effeithio ar eich gallu i gyflwyno'r prosiect yn unol â'n graddfeydd amser, felly mae'n rhaid i unrhyw ariannu rydych yn ei gyfrannu fod wedi'i sicrhau cyn i chi ymgeisio i ni.

**Beth am ariannu yn y dyfodol?**

Mae'n bwysig dangos y bydd gan y prosiect etifeddiaeth sy'n parhau, ac i'r perwyl hwn mae'n bosib y byddwch am geisio ariannu gan ffynonellau eraill yn y dyfodol. Ni ddylai hyn fod yn gysylltiedig â llwyddiant cychwynnol y prosiect. Os yw eich cais yn llwyddiannus dylai ein hariannu fod yn ddigonol i gyflwyno'r prosiect dros y ddwy flynedd.

Fel rhan o'ch cais byddwn yn gofyn i chi sut rydych yn bwriadu parhau â rhannau llwyddiannus o'r prosiect ac yn rhannu arfer da neu ddysgu ar ôl i'n hariannu ddod i ben. Hoffem weld prosiectau llwyddiannus yn medru cynnal eu hunain a/neu eu hethos craidd ar ôl i'n grant ddod i ben ac yn rhoi ystyriaeth i sut y gallent gyflawni hyn.

**A fydd y rhaglen yn cefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar ardal ddaearyddol benodol?**

Yn benodol rydym yn chwilio am brosiectau a fydd yn creu buddion ar gyfer pobl ar draws y DU. Mae hyn yn golygu y gallant gael eu lleoli mewn lle penodol ond y dylai fod cynlluniau cadarn ar gyfer sicrhau bod y prosiect yn hygyrch ac yn berthnasol i bobl ar draws y DU. Er enghraifft, gall prosiectau ledaenu dysgu ac arfer da, cynnal digwyddiadau ar draws y DU, sefydlu cyfleusterau teithiol a all gwmpasu ardal helaeth neu ddatblygu galluoedd ar-lein sydd ag apêl ar draws y wlad.

**A fyddwch yn derbyn ceisiadau partneriaeth?**

Byddwn. Mae'n rhaid i'r mudiad arweiniol sy'n llunio ac yn cyflwyno'r ffurflen ymgeisio fod yn elusen gofrestredig. Os yw'n llwyddiannus, bydd y mudiad arweiniol yn atebol am ein hariannu.

**Beth yw ein cyfle o lwyddo?**

Dim ond un grant y byddwn yn ei ddyfarnu o dan bob un o'r pum math o brosiect. Disgwyliwn dderbyn llawer mwy o geisiadau nag y gallwn eu hariannu, felly mi fydd cystadleuaeth frwd.

**Pwy ydw i'n cysylltu â nhw am fwy o wybodaeth?**

I gael mwy o wybodaeth cyfeiriwch at y nodiadau arweiniad neu edrychwch ar ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk/mnawr. Gallwch hefyd ein ffonio ni ar 0845 4 10 20 30 neu anfon e-bost i mnow@biglotteryfund.org.uk